# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD | | DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE |
| DYDD MERCHER,<br>26 MAWRTH 2014 am 2.00 o'r gloch | | WEDNESDAY,<br>26 MARCH, 2014 at 2.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1,<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1,<br>COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes<br>(01248) 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

D R Hughes, Victor Hughes, Richard Owain Jones a Dafydd Rhys Thomas

**Llafur / Labour**

J A Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Vaughan Hughes (Cadeirydd/Chair), Cynghorydd R.Meirion Jones, R G Parry OBE a Dylan Rees

**Heb Ymaelodi/Unaffiliated**

R Ll Jones

# R H A G L E N

1 **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd.

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 30 Ionawr, 2014.

4 **BREINLEN DATBLYGU AELODAU** (Tudalennau 5 - 6)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro – Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r uchod.

5 **GWE DDARLLEDU CYFARFODYDD A MYNYCHU O BELL** (Tudalennau 7 - 8)

Cyflwyno adroddiad cynnydd gan y Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro – Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r uchod.

6 **GRANT DATBLYGU GWEFANNAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED - DIWEDDARIAD** (Tudalennau 9 - 10)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

7 **ADRODDIADAU BLYNYDDOL GAN YR AELODAU** (Tudalennau 11 - 12)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

8 **RHAGLEN DATBLYGU AELODAU AC ADOLIAD DATBLYGU PERSONOL**

Cyflwyno adroddiad llafar gan y Uwch Swyddog Datblygu Adnoddau Dynol mewn perthynas â'r uchod.

9 **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2014/2015** (Tudalennau 13 - 14)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr, 2014

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorwyr Victor Hughes, R Ll Jones, R G Parry OBE, Dylan Rees |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro (JHJ)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151 (CW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol/Swyddog Pwyllgor (SC). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr T Ll Hughes, A M Jones. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr D R Hughes, R.Meirion Jones, Dafydd Rhys Thomas |

Mynegodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad dwysaf â Mr Ieuan Wyn Jones, cyn Aelod Cynulliad a chyn-Aelod Seneddol Ynys Môn yn ei brofedigaeth o golli ei wraig Eirian. Safodd yr Aelodau a'r swyddogion mewn tawelwch fel arwydd o barch.

**1 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Oherwydd bod cyn lleied o aelodau'n bresennol yn y cyfarfod, PENDERFYNWYD gohirio ethol Is-Gadeirydd tan y cyfarfod nesaf.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2013 fel rhai cywir.

**4 YMGYNGHORI AR Y CYNIGION YNGHYLCH CYLLIDEB 2014/15**

Rhoes Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd grynodeb o'r arbedion arfaethedig mewn perthynas â Gwasanaethau Democrataidd. Nododd fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr wedi sgriwtineiddio'r arbedion yn y gyllideb sy'n cael effaith ar y Gwasanaethau Corfforaethol ac roedd dyfyniad o'r cofnodion ynghlwm wrth yr adroddiad i'r Pwyllgor hwn er gwybodaeth.

Cododd Aelodau'r Pwyllgor y prif bwyntiau isod mewn perthynas â'r arbedion arfaethedig :-

- Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r cynigion sy'n cael effaith ar y gyllideb sifig a seremonïol ac effaith hynny ar y rhaglen flynyddol o weithgareddau dinesig. Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd bod y prif wariant o'r gyllideb hon yn gysylltiedig â Gwasanaeth Sul y Cadeirydd a Seremoni Flynyddol Rhyddid y Sir i'r Llu Awyr Brenhinol. Roedd yr Aelodau teimlo y gellid adolygu'r gwariant drwy leihau'r costau arlwyo sy'n gysylltiedig â'r digwyddiadau hyn;

- Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r cynigion sy'n cael effaith ar Sioe Môn. Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd mai llogi Pabell y Cyngor yn y Sioe a'r costau gwasanaeth cysylltiedig yw'r gwariant mwyaf. Roedd yr Aelodau'n teimlo y gellid adolygu'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r gyllideb hon;
- Codwyd mater dileu swydd wag y Swyddog Sgriwtini. Nodwyd bod Adroddiad Williams a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dwyn sylw at bwysigrwydd Sgriwtini ac y dylai trefniadau sgriwtini'r Cynghorau gael digon o gefnogaeth. Yn ychwanegol at hyn, cyfeiriwyd at yr angen i adolygu nifer yr eitemau ar raglenni'r Pwyllgorau Sgriwtini er mwyn sicrhau sgriwtini ystyrlon. Dywedwyd y byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach gyda Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion pob Pwyllgor ar adeg adolygu'r rhaglenni gwaith.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chyfeirio'r materion a godwyd uchod i'r Pwyllgor Gwaith.**

## 5 GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD A MYNYCHU O BELL

Cyflwynwyd – adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd. Roedd y Pwyllgor hwn wedi ystyried adroddiad yn nodi'r cyd-destun a'r cynigion ar gyfer gweddarlledu cyfarfodydd a mynychu o bell ar 1 Hydref 2013.

Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd bod y Cyngor Sir ar 10 Hydref wedi penderfynu symud ymlaen i weddarlledu cyfarfodydd am gyfnod arbrofol o 2 flynedd. Bwriedir cychwyn gweddarlledu'r Pwyllgor Gwaith ar 17 Mawrth ac yna'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a'r Cyngor Llawn. Bydd angen trefnu hyfforddiant ar gyfer yr Aelodau a Staff ar y gwasanaeth gweddarlledu. Yn dilyn proses tendro cystadleuol, dyfarnwyd y contract i Public-i. Mae Public-i eisoes yn darparu gwasanaeth ar gyfer Cynghorau Caerdydd, Sir Gâr a Wrecsam.

Dywedodd ymhellach y disgwylir canllawiau terfynol erbyn diwedd y mis gan Lywodraeth Cymru ynghylch mynychu o bell. Bydd angen adrodd ar hyn i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor yn y man fel y gellir gwneud darpariaeth yn y Cyfansoddiad sy'n caniatáu i aelod fynychu o bell er mwyn cymryd rhan mewn cyfarfodydd os bydd angen.

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi'r cynnydd fel y manylir arno yn yr adroddiad ar weddarlledu cyfarfodydd a fydd yn cychwyn ym mis Mawrth 2014.**
- **Nodi'r sefyllfa gyfredol mewn perthynas â mynychu o bell.**

## 6 DATBLYGU GWEFANNAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynwyd - adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yn dweud bod Llywodraeth Cymru wedi clustnodi cyllid i Gynghorau Sir i gynnig grant o hyd at £500 yr un i gynghorau tref a chymuned, gan gynnwys y rheiny sydd eisoes â gwefannau, i'w wario ar ddatblygu gwefannau.

Pwrpas y grant hwn yw cynorthwyo cynghorau tref a chymuned i baratoi ar gyfer Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth)(Cymru) 2013, sy'n cynnwys darpariaethau a fyddai'n mynnu fod pob cyngor cymuned yn cyhoeddi gwybodaeth ar wefan.

Yn y cyfarfod ar 1 Hydref 2013, dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd fod £20,000 wedi cael ei neilltuo i gynorthwyo cynghorau tref a chymuned Ynys Môn i ddatblygu gwefannau a bod yr arian wrthi'n cael ei rannu.

Eglurodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd y sefyllfa gyfredol mewn perthynas â'r grant:-

- Mae 23 o'r 40 o gynghorau wedi hawlio'r grant;
- Roedd 6 yn bwriadu hawlio'r grant neu'n ystyried y mater;
- Nid oedd 11 yn bwriadu hawlio'r grant

Eglurodd y bydd Llywodraeth Cymru o bosib yn llacio'r canllawiau a'r telerau mewn perthynas â defnyddio'r grant ac y disgwylir canllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD – Nodi'r sefyllfa gyfredol.**

## 7 CYNLLUN DATBLYGU A HYFFORDDI I AELODAU

Cyflwynwyd – Adroddiad gan yr Uwch Swyddog Datblygu Adnoddau Dynol yn rhoi diweddariad ar y cynnydd mewn perthynas â'r cyfleon hyfforddi a gynigiwyd i Aelodau Etholedig ers eu hethol ym mis Mai 2013.

Mae'r Cynllun Datblygu ar gyfer 2013/14 a fabwysiadwyd ym mis Mai 2013 yn ddogfen esblygol a ddiwygiwyd i adlewyrchu anghenion Aelodau Etholedig a'r Awdurdod. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys sesiynau ar y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau Etholedig, Aelodau Lleyg, Cynghorau Tref a Chymuned.

Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant a nodwyd ar y cynllun datblygu wedi'i gwblhau. Trefnwyd cyfanswm o 34 o sesiynau ffurfiol rhwng Mai a Rhagfyr 2013.

Fel y dywedwyd eisoes, mae'r Awdurdod yn ymrwymo i gefnogi Aelodau ymhellach yn eu gwaith drwy gyflwyno Adolygiadau Datblygiad Personol (ADP). Bydd hyn hefyd yn cwrdd â gofynion Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau.

Rhoes yr Uwch Swyddog Datblygu Adnoddau Dynol ddiweddariad ar yr adroddiad ar y Cynllun Datblygu a gyflwynwyd i'r Cyngor fis Mai diwethaf.

O ran darparu'r hyfforddiant, nododd bod Un Llais Cymru wedi darparu rhywfaint o hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. O ran yr hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig, mae swyddogion wedi darparu rhywfaint ohono er mwyn lleihau costau, ac yn ogystal, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cynnal sesiynau.

Holodd yr Aelodau am y posibilrwydd o ddarparu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd y Swyddog fod yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn rhad ac am ddim drwy CLILC. Gwneir pob ymdrech i geisio sicrhau hyfforddiant Cymraeg.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **26 MAWRTH 2014** |
| **TEITL:** | **BREINLEN DATBLYGU AELODAU** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ADRODDIAD AR GYNNYDD MEWN PERTHYNAS Â'R FREINLEN DATBLYGU AELODAU** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH DROS DRO - GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

1.0 **Cefndir**

1.1 Mae'r Pwyllgor hwn wedi derbyn adroddiadau rheolaidd ar waith sy'n gysylltiedig â chwrdd â gofynion Breinlen CLlLC ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau.

1.2 Mae'r Aelodau'n gwybod fod y Cyngor yn awr wedi cwrdd â'r gofynion angenrheidiol ac wedi derbyn y Freinlen Safonol. Cyflwynwyd y Freinlen i'r Cyngor ar 6 Mawrth 2014.

1.3 O ran y broses hunanasesu, gofynnwyd i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth yn erbyn meini prawf penodol:

- Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Aelodau
- Datblygu Aelodau
- Cefnogi Aelodau
- Cyfleusterau i Aelodau

1.4 Rhoddwyd y statws ei hun am gyfnod o 3 blynedd. Byddir yn ailasesu drwy gyfrwng cyflwyniad ysgrifenedig.

1.5 Yn ystod tymor y Cyngor hwn, mae sgôp i'r Cyngor weithio tuag at Lefel Breinlen Uwch, sef dyfarniad newydd a ddatblygwyd gan CLlLC – Y Wobr Ymarfer Da ac Arloesedd ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau.

1.6 Mae sicrhau cynnydd o ran Datblygu a Chefnogi Aelodau yn dilyn dyfarnu'r Freinlen yn swyddogaeth bwysig i'r Pwyllgor hwn ac yn llunio rhan o'r rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn y flwyddyn i ddod. Mae'n gyfle hefyd i rannu arfer dda trwy drefniadau rhwydweithio CLlLC er mwyn hysbysu'r Pwyllgor ynghylch meysydd pellach ar gyfer eu gwella a'u datblygu.

2. **Argymhelliad**

2.1 Nodi cynnwys yr adroddiad.

**Huw Jones**
**Pennaeth Dros Dro - Gwasanaethau Democrataidd**
**17/03/14**

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **ENW PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y PWYLLGOR:** | **26 MAWRTH 2014** |
| **TEITL:** | **GWE DDARLLEDU CYFARFODYDD A MYNYCHU O BELL** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ADRODDIAD AR GYNNYDD MEWN PERTHYNAS Â GWE DDARLLEDU A MYNYCHU O BELL** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DROS DRO** |

1.0 **Cefndir**

1.1 Bydd Aelodau yn cofio bod adroddiad gwaith wedi ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Pwyllgor ar 30 Ionawr 2014 ynghyd a manylion am y cynllun gweithredu arfaethedig.

1.2 Oherwydd y bu rhaid adrodd i'r Pwyllgor Gwaith ar 17 Chwefror mewn perthynas â'r ymarfer caffael, bu angen ail-drefnu'r cynllun gweithredu ar gyfer chwarter cyntaf 2014/15 fel a ganlyn:

| **Tasg** | **Erbyn** |
|---|---|
| Gosod yr offer yn Siambr y Cyngor | 22 – 25 Ebrill |
| Hyfforddiant i Aelodau a staff ar system we ddarlledu Public-i | I gychwyn ddechrau Mai 2014 |
| Y system yn gwbl weithredol | Mehefin 2014 |

1.3 Mae hyn yn golygu y dechreuir gwe ddarlledu cyfarfodydd ym mis Mehefin 2014 gan ddechrau gyda'r Pwyllgor Gwaith.

2.0 **Mynychu o Bell**

2.1 Mewn perthynas â'r uchod, y sefyllfa gyfredol yw bod y gorchymyn cychwyn perthnasol wedi ei wneud ac fe ddaeth trefniadau mynychu o bell i rym ar 28 Chwefror 2014. Disgwylir yn awr am y canllawiau cysylltiedig gan Lywodraeth

Cymru.  Bydd angen i Gyfansoddiad y Cyngor gynnwys darpariaeth ar gyfer y mater hwn.  Ar hyn o bryd disgwylir  adrodd i'r Pwyllgor Gwaith eto ym mis Mai 2014.

3.0 **Argymhellion**

i) Nodir cynnydd y manylir arno yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â gwe ddarlledu cyfarfodydd a fydd yn dechrau ym mis Mehefin 2014 (para 1.3);

ii) Nodir sefyllfa gyfredol mewn perthynas â mynychu o bell (Para 2.1).

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro**
**14/03/14**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad y cyfarfod: | 26 Mawrth 2014 |
| Teitl: | Grant Datblygu Gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned – diweddariad |
| Awdur: | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro |

**1.0 Cefndir**

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid i Gynghorau Sir er mwyn iddynt gynnig grant o hyd at £500 yr un i gynghorau tref a chymuned, gan gynnwys y rhai hynny sydd â gwefan eisoes, i'w wario ar ddatblygu gwefannau.

1.2 Pwrpas y grant oedd cynorthwyo cynghorau tref a chymuned i baratoi ar gyfer y Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, sy'n cynnwys darpariaethau lle byddai'n ofynnol i bob cyngor cymuned gyhoeddi gwybodaeth ar wefan.

1.3 Fe ddywedais wrth y Pwyllgor hwn ar 1 Hydref 2013 bod £20,000 o gyllid wedi ei ddyrannu tuag at gynorthwyo cynghorau tref a chymuned Ynys Môn i ddatblygu gwefannau a bod y dyraniad wrthi'n cael ei ddosbarthu i gynghorau cymuned. Cyflwynwyd adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor hwn ar 30 Ionawr 2014.

**2.0 Y Sefyllfa Ddiweddaraf**

2.1 Roedd yr arweiniad gwreiddiol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod angen defnyddio'r arian cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae awdurdodau lleol bellach wedi cael awdurdod gan Lywodraeth Cymru i gario'r arian drosodd i'w ddefnyddio yn ystod 2014/15. Y rheswm am hyn yw er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd a galluogi cynghorau tref a chymuned i baratoi'n well ar gyfer y gofyniad i gael gwefan mewn lle erbyn y daw'r rhannau perthnasol o'r Deddf Democratiaeth Lleol (Cymru) 2013 i rym yn 2015.

2.2 Dyma'r sefyllfa ddiweddaraf o ran dyrannu'r grant:

- 25 o gynghorau wedi hawlio'r grant
- 4 cyngor wedi rhoi gwybod i ni un ai eu bod yn bwriadu hawlio'r grant neu'n parhau i ystyried y mater
- 11 o gynghorau wedi rhoi gwybod i ni nad ydynt yn bwriadu hawlio'r grant

2.3 Bwriedir 'mofyn cymorth Un Llais Cymru o ran annog a chefnogi'r cynghorau cymuned hynny sydd heb hawlio'r grant hyd yn hyn i gymryd mantais o'r cynnig.

## 3.0 Argymhelliad

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r sefyllfa ddiweddaraf.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro** **18 Mawrth 2014**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y PWYLLGOR** | **26 MAWRTH 2014** |
| **TEITL:** | **ADRODDIADAU BLYNYDDOL GAN YR AELODAU** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **RHOI GWYBOD I'R PWYLLGOR AM GYNNYDD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DROS DRO** |

**1. Cefndir**

**1.1** Adroddais i'r Pwyllgor hwn ar 4 Chwefror 2013 a 2 Gorffennaf 2013 mewn perthynas ag Adran 5 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 sy'n rhoi dyletswydd ar y Cyngor Sir i sicrhau bod trefniadau wedi eu gwneud i Aelodau gyflwyno adroddiad blynyddol ar eu gweithgareddau yn y Cyngor yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hynny yn cynnwys Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn adrodd ar eu gweithgareddau yn y Pwyllgor Gwaith hefyd. Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'r adroddiadau a wneir gan yr Aelodau.

**1.2** Mae'r Pwyllgor hwn wedi ystyried nodiadau canllaw a thempled ar gyfer adroddiadau blynyddol gan yr Aelodau ac y maent wedi eu dosbarthu i'r holl Aelodau.

**1.3** Hon yw'r flwyddyn gyntaf y gofynnwyd i'r Aelodau gynhyrchu adroddiad blynyddol a bydd yn ymwneud â'r cyfnod hyd at fis Mawrth 2014. Gofynnwyd am adroddiadau gan yr holl Aelodau erbyn 9 Ebrill 2014 fel bod modd i'r Gwasanaethau Democrataidd eu hadolygu cyn eu cyhoeddi er wefan y Cyngor ym mis Mehefin 2014 ar yr hwyraf.

**2. Argymhelliad**

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd nodi'r sefyllfa gyfredol fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro**
**14/03/14**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **26 MAWRTH 2014** |
| **TEITL:** | **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2014/15** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **TRAFOD Y RHAGLEN WAITH ARFAETHEDIG AR GYFER 2014/15** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH DROS DRO – GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

1.0 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yw adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth yn yr awdurdod o ran staff, llety ac adnoddau eraill fel y gellir cyflawni dyletswyddau a swyddogaethau'r gwasanaethau democrataidd.

1.1 Bydd adroddiad ar waith y Pwyllgor yn ystod 2013/14 yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 8 Mai 2014.

1.2 Wrth ddatblygu rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2014/15, argymhellir y dylid canolbwyntio ar y meysydd isod:

- Cynllun Datblygu a Hyfforddi Aelodau gan gynnwys Adolygiadau Datblygiad Personol;
- Gweddarlledu cyfarfodydd a mynychu o bell;
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;
- Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol;
- Moderneiddio arferion gweithio;
- Y gyllideb ar gyfer 2015/16 a'i heffaith ar y Gwasanaethau Democrataidd.

1.3 Yn ychwanegol at hyn, bwriedir trefnu grŵp ffocws ar gyfer yr holl Aelodau yn ystod chwarter cyntaf 2014/15 er mwyn cael atborth gan yr Aelodau ar arferion gweithio fel y gellir rhoi siâp ar y rhaglen waith.

## 2.0 **Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a nodi y bydd y rhaglen waith yn cael ei diweddaru yn y cyfarfod nesaf.

**Huw Jones**
**Pennaeth Dros Dro – Gwasanaethau Democrataidd**
**17/03/14**